
Dogfennau Ategol – Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad: I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Fideogynadledda drwy Zoom P Gareth Williams
Dyddiad: Dydd Llun, 5 Mehefin 2023 Clerc y Pwyllgor
Amser: 13.30 0300 200 6565
SeneddDCC@senedd.cymru

O bell – Pecyn Atodol

Noder bod y dogfennau a ganlyn yn ychwanegol i'r dogfennau a gyhoeddwyd yn y prif becyn Agenda ac Adroddiadau ar gyfer y cyfarfod hwn

5 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

(13.45 – 13.50)

5.4 Gohebiaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol:

Rheoliadau Gofal Iechyd (Trefniadau Rhyngwladol) (Ymadael â'r UE) 2023

(Tudalennau 1 – 10)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-17-23 – Papur 30 – Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 2 Mehefin 2023

LJC(6)-17-23 – Papur 31 – Llythyr at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 15 Mai 2023

6 Papurau i'w nodi

(13.50 – 14.00)

6.8 Gohebiaeth gan y Pwyllgor Cyllid at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol:

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Ardrethu Annomestig

(Tudalen 11)

Dogfennau atodol:



LJC(6)-17-23 – Papur 21a – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth
Leol at y Pwyllgor Cyllid, 2 Mehefin 2023

**8 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Mudo
Anghyfreithlon**

(14.00 – 14.10)

(Tudalennau 12 – 16)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-17-23 – Papur 23 – Nodyn cyngor cyfreithiol [Saesneg yn unig]

**9 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Gwarchodaeth
rhag Aflonyddu ar sail Rhyw yn Gyhoeddus: Adroddiad drafft**

(14.10 – 14.25)

(Tudalennau 17 – 28)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-17-23 – Papur 24 – Adroddiad drafft [Saesneg yn unig]

LJC(6)-17-23 – Papur 24a – Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth [Saesneg yn unig]

**10 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Cyfraith
yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio)**

(14.25 – 14.35)

(Tudalennau 29 – 41)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-17-23 – Papur 25a – Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y
Cyfansoddiad, 2 Mehefin 2023 [Saesneg yn unig]

LJC(6)-17-23 – Papur 25b – Llythyr at y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y
Cyfansoddiad, 16 Mai 2023

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd,
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

SeneddDCC@senedd.cymru

2 Mehefin 2023

Annwyl Huw

Diolch am eich llythyr dyddiedig 15 Mai ynghylch Rheoliadau Gofal Iechyd (Trefniadau Rhyngwladol) (Ymadael â'r UE) 2023 ("Rheoliadau HIA"). Rwyf wedi ateb eich cwestiynau am Reoliadau HIA isod.

Cwestiwn 1

Yn y llythyr rydych yn nodi y bydd y Rheoliadau HIA "yn cael eu gwneud drwy arfer pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol gan Ddeddf Gofal Iechyd (Trefniadau Rhyngwladol) 2019 ("y Ddeddf") (a arferai gael ei galw yn Ddeddf Gofal Iechyd (Trefniadau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir) 2019 ond sy'n cael ei hailenwi gan adran 162 o Ddeddf Iechyd a Gofal 2022). Pan ddaw adran 162 i rym, bydd yn peri i'r prif bŵer galluogi ar gyfer y Rheoliadau HIA gychwyn". Pryd y bydd adran 162 o Ddeddf Iechyd a Gofal 2022 (Deddf 2022) yn dod i rym?

Mae fy swyddogion yn disgwyl y caiff ei chychwyn yn yr haf, ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd gan eu swyddogion cyfatebol yn Llywodraeth y DU.

Cwestiwn 2

Yn eich llythyr rydych yn nodi "Mae'r Rheoliadau HIA yn debyg i'r Rheoliadau HEEASA i raddau helaeth, ond maent yn ehangu cwrdd y fframwaith cyfreithiol i gynnwys cytundebau gofal iechyd rhwng Llywodraeth y DU a gwledydd Gweddill y Byd." Rydych hefyd yn nodi "Mae'r ddarpariaeth deddfwriaethol amnewid a wneir gan y Rheoliadau HIA mewn perthynas â chyfundrefn y DU ar gyfer gofal iechyd cilyddol yn cadw'r status quo yn fras o dan y Rheoliadau HEEASA cyfredol." Byddem yn ddiolchgar i gael rhagor o eglurder ar y gwahaniaethau penodol rhwng y Rheoliadau HIA a Rheoliadau HEEASA a'r hyn a olygir gan yr ymadrodd "yn cadw'r status quo yn fras".

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 1
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae Rheoliadau Gofal Iechyd (Trefniadau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir) (Ymadael â'r UE) 2019 ("Rheoliadau HEEASA") yn gwneud y canlynol:

- rhoi dyletswydd i Awdurdod Gwasanaethau Busnes GIG y DU, yn ddarostyngedig i gyfarwyddiadau a roddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol, i wneud taliadau ar sail y DU gyfan o dan adran 1 o Ddeddf Gofal Iechyd (Trefniadau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir) 2019 ("Deddf 2019") (sy'n galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud taliadau, neu i drefnu i daliadau gael eu gwneud, mewn cysylltiad â chostau gofal iechyd a ddarperir mewn un o wladwriaethau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd neu'r Swistir), ac i helpu'r Ysgrifennydd Gwladol i arfer swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol mewn cysylltiad â gwneud taliadau o'r fath, gan roi effaith i gytundebau a threfniadau gofal iechyd a darpariaeth gofal iechyd mewn aelod-wladwriaethau;
- rhoi swyddogaethau i Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG a'r Ysgrifennydd Gwladol i roi effaith i rwymedigaethau ac ymrwymadau'r DU o dan gytundebau neu drefniadau gofal iechyd;
- gosod swyddogaethau gwybodaeth a chynngor ar Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG (h.y. i sefydlu a chynnal gwasanaeth gwybodaeth a chynngor i'r cyhoedd);
- rhoi swyddogaethau triniaeth wedi'i chynllunio S2 i Fyrddau Iechyd Lleol Cymru, NHS England a Byrddau Iechyd yr Alban (h.y. i wneud penderfyniadau clinigol ynghylch ceisiadau yn unol â chytundebau a threfniadau gofal iechyd rhyngwladol);
- darparu i Weinidogion y Llywodraethau Datganoledig a'r Ysgrifennydd Gwladol, ar y cyd â'r byrddau iechyd perthnasol, gael penderfynu ynghylch ceisiadau am driniaeth (wedi'i chynllunio) S2 y GIG.

Mae Rheoliadau HIA yn 'cadw'r status quo yn fras' am fod rolau'r Ysgrifennydd Gwladol, Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG a'r byrddau iechyd perthnasol (e.e. Byrddau Iechyd Lleol Cymru mewn perthynas â Chymru) o fewn y fframwaith cyfreithiol yn aros yr un peth i bob pwrpas.

Dileodd adran 162 o Ddeddf Iechyd a Gofal 2022 ("Deddf 2022") bŵer ehangach yr Ysgrifennydd Gwladol i wneud taliadau gofal iechyd yn adran 1 o Ddeddf 2019 a'r pŵer i wneud rheoliadau mewn perthynas â gofal iechyd a threfniadau gofal iechyd yn adran 2 o Ddeddf 2019. Cafodd y pwerau hynny eu creu er mwyn helpu pobl i fanteisio ar ofal iechyd yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir pe bai'r DU yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd heb gytundeb ac felly ni fyddai angen mesurau o'r fath mwyach. Yn adran 162, cafodd y pwerau blaenorol eu disodli gan bŵer i wneud rheoliadau yn ôl disgrisiwn ynghylch cytundebau a thaliadau gofal iechyd. O ganlyniad i hynny, mae Rheoliadau HIA yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol, ar sail y DU gyfan, wneud taliadau a threfnu i daliadau gael eu gwneud mewn cysylltiad â gofal iechyd a ddarperir mewn gwlad a restrir o dan gytundeb gofal iechyd, ac i wneud taliadau (ac eithrio o dan gytundeb gofal iechyd) mewn cysylltiad â gofal iechyd a ddarperir mewn gwlad a restrir pan fo'r Ysgrifennydd Gwladol yn ystyried bod amgylchiadau eithriadol yn cyfiawnhau'r taliad (gyda modd i Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG, Byrddau Iechyd Lleol Cymru, NHS England a Byrddau Iechyd Lleol yr Alban wneud atgyfeiriadau ar gyfer ceisiadau neu hawliadau am daliadau o'r fath).

O dan Rheoliadau HIA, bydd yn ofynnol o hyd i Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG roi effaith i rwymedigaethau ac ymrwymadau'r DU o dan gytundebau gofal iechyd perthnasol, i helpu'r Ysgrifennydd Gwladol i arfer ei swyddogaethau mewn perthynas â chytundebau gofal iechyd perthnasol a darpariaeth gofal iechyd mewn gwledydd a restrir ac i sefydlu a chynnal gwasanaeth gwybodaeth a chynngor i'r cyhoedd. Mae hefyd yn ofynnol o hyd i fyrddau iechyd perthnasol (e.e. Byrddau Iechyd Lleol Cymru mewn perthynas â Chymru) wneud penderfyniadau clinigol ynghylch ceisiadau am driniaeth wedi'i chynllunio S2, yn unol â'r cytundebau gofal iechyd perthnasol y pecyn 2

At hynny, ynghyd â nifer o newidiadau technegol, mae Rheoliadau HIA hefyd yn gwneud y canlynol:

- rhestru gwledydd sy'n rhan o gytundebau gofal iechyd rhyngwladol â'r DU (roedd Rheoliadau HEEASA, ar y llaw arall, yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi a chynnal rhestr ar wahân o gytundebau gofal iechyd rhyngwladol);
- yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol, Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG, Byrddau Iechyd Lleol Cymru, NHS England a Byrddau Iechyd yr Alban bennu a chyhoeddi gweithdrefnau ar gyfer penderfynu ynghylch ceisiadau a hawliadau sydd o fewn eu cylch gwaith, y mae'n rhaid iddynt gynnwys darpariaeth ar gyfer proses adolygu.

Nid yw Rheoliadau HIA yn dwyn ymlaen y pŵer yn HEEASA sy'n caniatáu i Weinidogion y Llywodraethau Datganoledig a'r Ysgrifennydd Gwladol, ar y cyd â'r byrddau iechyd perthnasol, benderfynu ynghylch ceisiadau am driniaeth (wedi'i chynllunio) S2 y GIG. Fodd bynnag, nid yw'r pŵer hwn yn Rheoliadau HEEASA erioed wedi cael ei ddefnyddio yng Nghymru, ac nid oes unrhyw amgylchiadau y gellir eu rhagweld pan fyddai Gweinidogion Cymru yn dymuno penderfynu ynghylch cais am driniaeth (wedi'i chynllunio) S2, gan fod ceisiadau o'r fath yn cael eu hasesu'n glinigol gan y Byrddau Iechyd Lleol. Nid oes gan Lywodraeth Cymru yr arbenigedd clinigol sy'n ofynnol i wneud penderfyniadau o'r fath ac i roi'r cyngor perthnasol i'r Gweinidogion yn hyn o beth felly.

Am fod adran 162 o Ddeddf 2022 hefyd yn ei gwneud yn bosibl i reoliadau gael eu gwneud yn y maes hwn sy'n rhoi cytundebau cilyddol cynhwysfawr ar waith â gwledydd y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir, mae Rheoliadau HIA yn gymwys i gytundebau gofal iechyd perthnasol a restrir â gwledydd Gweddill y Byd.

Cwestiwn 3

Byddwch yn ymwybodol, yn ein hadroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Iechyd a Gofal (adroddiad Rhagfyr 2021) ac yn ein hadroddiad dilynol ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 2 a Memorandwm Rhif 3) ar y Bil Iechyd a Gofal (adroddiad Chwefror 2022), ein bod yn mynegi pryderon am yr hyn a ddaeth yn adran 162 o Ddeddf 2022, ehangder y pwerau dirprwyedig y mae'n eu darparu i Weinidogion, a'r canlyniadau y gallai rheoliadau o'r fath eu cael ar gyffwrdd y GIG yng Nghymru.

Mae Casgliad 6 yn ein hadroddiad Chwefror 2022 yn dweud "Dylai Gweinidogion Cymru wneud unrhyw reoliadau angenrheidiol mewn meysydd datganoledig at ddiben dod â chytundebau gofal iechyd rhyngwladol i rym. Pan na fyddant yn gwneud hynny, a bod y pŵer i roi swyddogaethau perthnasol i'r Byrddau Iechyd Lleol ynghylch cytundebau gofal iechyd yn cael ei arfer yn lle hynny gan yr Ysgrifennydd Gwladol, rhaid i Weinidogion Cymru roi manylion ac esboniad llawn i'r Senedd cyn i reoliadau o'r fath gael eu gwneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol."

Rydym yn cydnabod bod eich llythyr dyddiedig 25 Ebrill yn hysbysu'r Senedd am y bwriad i wneud y Rheoliadau HIA gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Byddem yn croesawu cadarnhad ac eglurder ynghylch sut yr ymgynghorwyd â Byrddau Iechyd Lleol Cymru ar y Rheoliadau HIA.

Mae fy swyddogion wedi bod yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Byrddau Iechyd Lleol ar gynnydd Rheoliadau HIA, ac maent wedi ymgynghori'n benodol ar y rhan o Reoliadau HIA sy'n gosod dyletswydd newydd arnynt (h.y. y gofyniad i fyrddau iechyd lleol bennu a chyhoeddi gweithdrefnau ar gyfer penderfynu ynghylch ceisiadau S2, gan gynnwys darpariaeth ar gyfer proses adolygu). Mae Llywodraeth y DU hefyd wedi ymgynghori â'r Byrddau Iechyd Lleol ar y broses Fudalhwip ac yn ei gwneud cais i'r Ysgrifennydd

Gwladol am daliadau gofal iechyd o dan amgylchiadau eithriadol, gan fod Bwrdd Iechyd Lleol y claf yn gallu gwneud cais amdanynt ar ei ran.

Cwestiwn 4

Yn eich llythyr rydych chi'n nodi "Rhestrir gwledydd a gwmpesir gan Gytundebau Gofal Iechyd Rhyngwladol mewn Atodlen i'r Rheoliadau HIA. O ystyried bod Llywodraeth y DU am geisio cytundebau â nifer o wledydd yn y blynyddoedd sydd i ddod, a bydd angen diwygio'r Atodlen gan ddefnyddio'r weithdrefn gadarnhaol bob tro y bydd gwledydd yn cael eu rhestru, rwy'n ystyried ei fod yn fwy ymarferol ac effeithlon bod Llywodraeth y DU yn gwneud y gwaith hwn ar ein rhan." Fel yr amlygwyd yn y cwestiwn blaenorol, mae casgliad 6 yn ein hadroddiad Chwefror 2022 yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru wneud unrhyw reoliadau angenrheidiol mewn meysydd datganoledig at ddiben dod â chytundebau gofal iechyd rhyngwladol i rym.

a) A allwch egluro pam eich bod yn ystyried ei bod yn "fwy ymarferol ac effeithlon bod Llywodraeth y DU yn gwneud y gwaith hwn ar [eich] rhan".

Bob tro y mae Llywodraeth y DU yn ymrwmo i gytundeb gofal iechyd newydd â gwlad neu diriogaeth, bydd angen diwygio Rheoliadau HIA er mwyn ychwanegu'r wlad honno neu'r diriogaeth honno i'r Atodlen ar sail y DU gyfan, er mwyn rhoi effaith i'r cytundeb a'i weithredu ledled y DU. O ystyried bod Llywodraeth y DU yn bwriadu ceisio cytundebau â nifer o wledydd yn y blynyddoedd sydd i ddod, gallai fod angen gwneud cyfres barhaus o ddiwygiadau i'r Atodlen. Bydd yn ofynnol i Lywodraeth y DU ddiwygio'r Atodlen bob tro y mae'n ymrwmo i gytundeb gofal iechyd newydd, o leiaf o ran Lloegr. Am fod ganddi'r cymhwysedd hefyd i ddiwygio'r Atodlen ar sail y DU gyfan, mae'n ymarferol ac yn effeithlon iddi gymhwyso unrhyw ddiwygiad o'r fath i Gymru, o ystyried y byddai angen diwygiad cyfatebol o ran Cymru beth bynnag.

At hynny, fel y nodir isod, mae'n debygol mai ychydig iawn o effaith fydd rhestru cytundebau o'r fath yn Rheoliadau HIA yn ei chael ar y Byrddau Iechyd Lleol. Felly, nid deddfu ar wahân i Gymru pan fydd angen rhestru cytundeb newydd fyddai'r ffordd fwyaf priodol o roi effaith i'r newidiadau sydd eu hangen yn fy marn i, ac ni fyddai'n ddefnydd doeth o adnoddau Llywodraeth Cymru o ystyried blaenoriaethau pwysig eraill.

b) Allwch chi gadarnhau, pan fydd y pŵer i roi swyddogaethau perthnasol i'r Byrddau Iechyd Lleol ynghylch cytundebau gofal iechyd yn cael ei arfer gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn y dyfodol, y bydd Gweinidogion Cymru yn rhoi manylion ac esboniad llawn i'r Senedd cyn i reoliadau o'r fath gael eu gwneud.

Gallaf gadarnhau y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i roi gwybod i'r Senedd pan fo Llywodraeth y DU yn arfer pŵer deddfwriaethol dirprwyedig mewn maes datganoledig o ran Cymru, gan egluro'r rhesymeg dros hyn.

c) Pa asesiadau fydd yn cael eu gwneud gan Lywodraeth Cymru o'r goblygiadau i Fyrddau Iechyd Lleol Cymru cyn rhoi unrhyw gydsyniad i Lywodraeth y DU wneud rheoliadau pellach sy'n ychwanegu gwledydd at yr Atodlen?

Nid yw'n ofynnol yn statudol i Lywodraeth y DU geisio cydsyniad Gweinidogion Cymru mewn cysylltiad â rheoliadau pellach sy'n ychwanegu rhagor o wledydd i'r Atodlen. Yn sgil cychwyn adran 162 o Ddeddf Iechyd a Gofal 2022 ac ar ôl i Reoliadau HIA ddod i rym, bydd adran 5 o Ddeddf Gofal Iechyd (Cytundebau Rhyngwladol) 2019 (a oedd yn dwyn y teitl Deddf Gofal Iechyd (Trefniadau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir) 2019 gynt) yn cynnwys gofyniad statudol i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn gwneud rheoliadau sy'n cynnwys unrhyw ddarpariaeth sydd o fewn cymhwysedd

deddfwriaethol y Senedd. Dylid gwneud hyn o dan delerau'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Rhynglywodraethol mewn perthynas â'r Broses Ymgynghori ar gyfer Cytundebau Gofal Iechyd Rhyngwladol a'u Rheoliadau Gweithredu (sydd wedi ei amgáu gyda'r llythyr hwn – ar gael yn Saesneg yn unig).

Ychydig iawn o effaith y mae rhestru cytundebau pellach yn yr Atodlen i Reoliadau 2023 yn debygol o'i chael ar Fyrddau Iechyd Lleol, gan mai'r unig ddyletswyddau a roddir ar Fyrddau Iechyd Lleol gan Reoliadau HIA yw'r rheini sy'n ymwneud â thriniaeth wedi'i chynllunio S2. Fodd bynnag, caiff yr effeithiau hyn eu hystyried fel rhan o waith Llywodraeth Cymru i edrych ar effeithiau pob cytundeb unigol.

Nid yw'r rhan fwyaf o gytundebau gofal iechyd yn darparu ar gyfer trigolion y DU sy'n ceisio gofal iechyd wedi'i gynllunio dramor, a disgwylir y bydd hyn yn parhau mewn cytundebau yn y dyfodol. Nifer isel o drigolion Cymru sy'n ceisio gofal iechyd wedi'i gynllunio yn yr Undeb Ewropeaidd neu'r Swistir (sef yr unig gytundebu sy'n darparu ar gyfer hyn ar hyn o bryd). Mae'r DU wrthi ar hyn o bryd yn negodi Confensiwn Nawdd Cymdeithasol â'r Ardal Economaidd Ewropeaidd/ Gwladwriaethau'r Gymdeithas Fasnach Rydd Ewropeaidd, sef Lichtenstein, Gwlad yr Iâ a Norwy, sy'n debygol o gynnwys darpariaeth ar gyfer gofal iechyd wedi'i gynllunio. Fodd bynnag, ni ddisgwylir y byddai hyn yn cynyddu'n sylweddol nifer y cleifion o Gymru sy'n ceisio triniaeth wedi'i chynllunio dramor. At hynny, Llywodraeth y DU sy'n talu costau'r driniaeth ei hun ar gyfer cleifion o Gymru (heblaw'r costau hynny y mae rhaid i'r claf eu talu).

Dylid nodi bod cytundebau rhwng y DU a gwledydd eraill yn gosod rhwymedigaeth ar y DU yn ei chyfanrwydd, a'i bod yn ofynnol i Gymru eu rhoi ar waith a'u parchu. Felly, yn ymarferol, byddai rhaid i'r Byrddau Iechyd Lleol ymgymryd â dyletswydd debyg mewn cysylltiad â cheisiadau am driniaeth wedi'i chynllunio S2, p'un a yw cytundebau newydd wedi eu rhestru yn yr Atodlen i Reoliadau HIA ai peidio.

d) A allwch gadarnhau a ydych yn ymwybodol o unrhyw gytundebau gofal iechyd rhyngwladol sydd ar ddod.

Gallaf gadarnhau bod Confensiwn Nawdd Cymdeithasol, gan gynnwys elfennau o ofal iechyd cilyddol, wrthi'n cael ei negodi ar hyn o bryd â'r Ardal Economaidd Ewropeaidd/ Gwladwriaethau'r Gymdeithas Fasnach Rydd Ewropeaidd, sef Lichtenstein, Gwlad yr Iâ a Norwy (gyda Chonfensiwn Nawdd Cymdeithasol â'r Swistir wedi cael ei lofnodi y llynedd).

Gallaf hefyd gadarnhau bod Llywodraeth y DU wrthi'n datblygu cytundebau newydd neu ddiwygiedig â nifer o Dirioogaethau Tramor y DU a chyda Jersey ac Ynys Manaw.

e) Sut mae Llywodraeth Cymru a Byrddau Iechyd Lleol Cymru yn cael eu cynnwys yn y trafodaethau, neu yr ymgynghorir yn ddigonol â hwy, ynghylch cytundebau parhaus â gwledydd eraill ac yn y dyfodol?

Mae fy swyddogion yn cyfarfod yn rheolaidd â swyddogion y DU o dan delerau'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Rhynglywodraethol, ac yn cyfrannu at y gwaith o lunio cytundebau a rennir gan Lywodraeth y DU fel sy'n briodol.

Nid yw'n ofynnol o dan y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Rhynglywodraethol i Lywodraeth y DU ymgynghori â'r byrddau iechyd lleol ar drefniadau gofal iechyd rhyngwladol. Fodd bynnag, mae'r byrddau iechyd lleol yn ymwybodol o'r gwaith sy'n mynd rhagddo gan Lywodraeth y DU yn y maes hwn, ac maent yn cyfarfod â'm swyddogion yn rheolaidd i drafod materion megis ymwelwyr tramor a gofal iechyd wedi'i gynllunio.

f) A allwch gadarnhau a yw'r Rheoliadau hyn yn cael eu cymryd drwy'r prosesau a amlinellir yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Rhynglywodraethol mewn perthynas â'r Broses Ymgynghori ar gyfer Cytundebau Gofal Iechyd Rhyngwladol a'u Gweithredu (y gwnaed fersiwn ohonynt ar gael i ni ym mis Chwefror 2022).

Gallaf gadarnhau bod y broses a nodir yn adran 8 ("Rheoliadau o dan Ddeddf Gofal Iechyd (Cytundebau Rhyngwladol) 2019") o'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Rhynglywodraethol wedi cael ei dilyn wrth lunio Rheoliadau HIA.

Cwestiwn 5

Yn eich llythyr rydych yn nodi "Mae'r ddarpariaeth ddeddfwriaethol amnewid a wneir gan y Rheoliadau HIA mewn perthynas â chyfundrefn y DU ar gyfer gofal iechyd cilyddol yn cadw'r status quo yn fras o dan y Rheoliadau HEEASA cyfredol. Golyga hyn y byddai'r ddarpariaeth y byddai'r Ysgrifennydd Gwladol yn ei gwneud yn y Rheoliadau HIA mewn perthynas â Chymru ac mewn meysydd datganoledig yn cyfateb i'r ddarpariaeth y byddem ninnau yn ei gwneud mewn rheoliadau Cymru yn unig. Felly, ni fyddai'n niweidiol i'r safbwynt polisi yn y maes hwn pe bai Llywodraeth y DU yn gwneud y ddarpariaeth hon i Gymru. Nid yw'r dull gweithredu hwn ychwaith yn atal Gweinidogion Cymru rhag gwneud rheoliadau i Gymru yn unig o dan adran 2A o'r Ddeddf yn y dyfodol." Byddem yn croesawu eglurhad ac eglurder pellach ar eich datganiad sy'n nodi "ni fyddai'n niweidiol i'r safbwynt polisi yn y maes hwn pe bai Llywodraeth y DU yn gwneud y ddarpariaeth hon i Gymru".

Mae ein safbwynt polisi yn hyn o beth yr un peth â safbwynt Llywodraeth y DU ar hyn o bryd, ac nid wyf yn rhagweld y bydd y sefyllfa hon yn newid. Felly, mae darpariaethau Rheoliadau HIA yn gydnaws â'n polisi ni. Fel y nodwyd uchod, pe bai ein polisiau yn y maes hwn yn gwahanu oddi wrth ei gilydd yn y dyfodol, mae'r pŵer gennym o dan adran 2A o Ddeddf Gofal Iechyd (Trefniadau Rhyngwladol) 2019 i wneud ein rheoliadau ein hunain er mwyn gweithredu newidiadau penodol yng Nghymru, ar yr amod bod y newidiadau hyn o fewn cymhwysedd datganoledig, y mae ei gwmpas wedi ei ragnodi gan adran 2A(2) a (4)(b) o'r Ddeddf. Felly, ni fyddai'n niweidiol i bolisiau presennol Cymru na pholisiau'r dyfodol yn y maes hwn pe bai Llywodraeth y DU yn gwneud y ddarpariaeth hon i Gymru.

Hyderaf fod hyn yn ateb eich cwestiynau.

Mae copi o'r llythyr hwn wedi cael ei anfon at Russel George AS, Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Yn gywir



Eluned Morgan AS/MS

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Eluned Morgan AS

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

15 Mai 2023

Annwyl Eluned

Rheoliadau Gofal Iechyd (Trefniadau Rhyngwladol) (Ymadael â'r UE) 2023

Yn ein cyfarfod ar 2 Mai 2023 gwnaethom ystyried eich llythyr dyddiedig 25 Ebrill lle gwnaethoch ddweud wrth fy Mhwyllgor fod Llywodraeth y DU yn bwriadu gwneud a gosod Rheoliadau Gofal Iechyd (Trefniadau Rhyngwladol) (Ymadael â'r UE) 2023 (Rheoliadau HIA) ddechrau mis Mehefin.

Gwnaethom nodi y bydd Rheoliadau HIA yn ymestyn i'r DU gyfan ac y byddant yn disodli fframwaith cyfreithiol y DU ar gyfer gweithredu trefniadau gofal iechyd y darperir ar eu cyfer yn y rheoliadau presennol, sef Rheoliadau Gofal Iechyd (Trefniadau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir) (Ymadael â'r UE) 2019 (Rheoliadau HEEASA), a wneir mewn perthynas â darparu gofal iechyd cyfatebol yng ngwladwriaethau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) a'r Swistir.

Mae gennym nifer o gwestiynau i'w gofyn ynghylch Rheoliadau HIA. Byddwn yn ddiolchgar o gael ymateb i'r cwestiynau a nodir yn yr Atodiad erbyn 31 Mai.

Anfonaf gopi o'r llythyr hwn at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Yn gywir

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies AS,
Cadeirydd



ATODIAD

Cwestiwn 1:

Yn y llythyr rydych yn nodi y bydd y Rheoliadau HIA "yn cael eu gwneud drwy arfer pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol gan Ddeddf Gofal Iechyd (Trefniadau Rhyngwladol) 2019 ("y Ddeddf") (a arferai gael ei galw yn Ddeddf Gofal Iechyd (Trefniadau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir) 2019 ond sy'n cael ei hailenwi gan adran 162 o Ddeddf Iechyd a Gofal 2022). Pan ddaw adran 162 i rym, bydd yn peri i'r prif bŵer galluogi ar gyfer y Rheoliadau HIA gychwyn". Pryd y bydd adran 162 o Ddeddf Iechyd a Gofal 2022 (Deddf 2022) yn dod i rym?

Cwestiwn 2:

Yn eich llythyr rydych yn nodi "Mae'r Rheoliadau HIA yn debyg i'r Rheoliadau HEEASA i raddau helaeth, ond maent yn ehangu cwmpas y fframwaith cyfreithiol i gynnwys cytundebau gofal iechyd rhwng Llywodraeth y DU a gwledydd Gweddill y Byd." Rydych hefyd yn nodi "Mae'r ddarpariaeth ddeddfwriaethol amnewid a wneir gan y Rheoliadau HIA mewn perthynas â chyfundrefn y DU ar gyfer gofal iechyd cilyddol yn cadw'r status quo yn fras o dan y Rheoliadau HEEASA cyfredol." Byddem yn ddiolchgar i gael rhagor o eglurder ar y gwahaniaethau penodol rhwng y Rheoliadau HIA a Rheoliadau HEEASA a'r hyn a olygir gan yr ymadrodd "yn cadw'r status quo yn fras".

Cwestiwn 3:

Byddwch yn ymwybodol, yn ein [hadroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Iechyd a Gofal](#) (adroddiad Rhagfyr 2021) ac yn ein [hadroddiad dilynol ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru \(Memorandwm Rhif 2 a Memorandwm Rhif 3\) ar y Bil Iechyd a Gofal](#) (adroddiad Chwefror 2022), ein bod yn mynegi pryderon am yr hyn a ddaeth yn adran 162 o Ddeddf 2022, ehangder y pwerau dirprwyedig y mae'n eu darparu i Weinidogion, a'r canlyniadau y gallai rheoliadau o'r fath eu cael ar gyrrff y GIG yng Nghymru.

Mae Casgliad 6 yn ein hadroddiad Chwefror 2022 yn dweud "Dylai Gweinidogion Cymru wneud unrhyw reoliadau angenrheidiol mewn meysydd datganoledig at ddiben dod â chytundebau gofal iechyd rhyngwladol i rym. Pan na fyddant yn gwneud hynny, a bod y pŵer i roi swyddogaethau perthnasol i'r Byrddau Iechyd Lleol ynghylch cytundebau gofal iechyd yn cael ei arfer yn lle hynny gan yr Ysgrifennydd Gwladol, rhaid i Weinidogion Cymru roi manylion ac esboniad llawn i'r Senedd cyn i reoliadau o'r fath gael eu gwneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol."

Rydym yn cydnabod bod eich llythyr dyddiedig 25 Ebrill yn hysbysu'r Senedd am y bwriad i wneud y Rheoliadau HIA gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Byddem yn croesawu cadarnhad ac eglurder ynghylch sut yr ymgynghorwyd â Byrddau Iechyd Lleol Cymru ar y Rheoliadau HIA.

Cwestiwn 4:

Yn eich llythyr rydych chi'n nodi "Rhestrir gwledydd a gwmpesir gan Gytundebau Gofal Iechyd Rhyngwladol mewn Atodlen i'r Rheoliadau HIA. O ystyried bod Llywodraeth y DU am geisio cytundebau â nifer o wledydd yn y blynyddoedd sydd i ddod, a bydd angen diwygio'r Atodlen gan ddefnyddio'r weithdrefn gadarnhaol bob tro y bydd gwledydd yn cael eu rhestru, rwy'n ystyried ei fod yn fwy ymarferol ac effeithlon bod Llywodraeth y DU yn gwneud y gwaith hwn ar ein rhan."

Fel yr amlygwyd yn y cwestiwn blaenorol, mae casgliad 6 yn ein hadroddiad Chwefror 2022 yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru wneud unrhyw reoliadau angenrheidiol mewn meysydd datganoledig at ddiben dod â chytundebau gofal iechyd rhyngwladol i rym.

a) A allwch egluro pam eich bod yn ystyried ei bod yn "fwy ymarferol ac effeithlon bod Llywodraeth y DU yn gwneud y gwaith hwn ar [eich] rhan".

b) Allwch chi gadarnhau, pan fydd y pŵer i roi swyddogaethau perthnasol i'r Byrddau Iechyd Lleol ynghylch cytundebau gofal iechyd yn cael ei arfer gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn y dyfodol, y bydd Gweinidogion Cymru yn rhoi manylion ac esboniad llawn i'r Senedd cyn i reoliadau o'r fath gael eu gwneud.

c) Pa asesiadau fydd yn cael eu gwneud gan Lywodraeth Cymru o'r goblygiadau i Fyrddau Iechyd Lleol Cymru cyn rhoi unrhyw gydsyniad i Lywodraeth y DU wneud rheoliadau pellach sy'n ychwanegu gwledydd at yr Atodlen?

d) A allwch gadarnhau a ydych yn ymwybodol o unrhyw gytundebau gofal iechyd rhyngwladol sydd ar ddod.

e) Sut mae Llywodraeth Cymru a Byrddau Iechyd Lleol Cymru yn cael eu cynnwys yn y trafodaethau, neu yr ymgynghorir yn ddigonol â hwy, ynghylch cytundebau parhaus â gwledydd eraill ac yn y dyfodol?

f) A allwch gadarnhau a yw'r Rheoliadau hyn yn cael eu cymryd drwy'r prosesau a amlinellir yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhynglywodraethol mewn perthynas â'r Broses Ymgynghori ar gyfer Cytundebau Gofal Iechyd Rhyngwladol a'u Gweithredu (y gwnaed fersiwn ohonynt [ar_gael!](#) i ni ym mis Chwefror 2022).

Cwestiwn 5:

Yn eich llythyr rydych yn nodi "Mae'r ddarpariaeth ddeddfwriaethol amnewid a wneir gan y Rheoliadau HIA mewn perthynas â chyfundrefn y DU ar gyfer gofal iechyd cilyddol yn cadw'r status quo yn fras o dan y Rheoliadau HEEASA cyfredol. Golyga hyn y byddai'r ddarpariaeth y byddai'r Ysgrifennydd Gwladol yn ei gwneud yn y Rheoliadau HIA mewn perthynas â Chymru ac mewn meysydd datganoledig yn cyfateb i'r ddarpariaeth y byddem ninnau yn ei gwneud mewn rheoliadau

Cymru yn unig. Felly, ni fyddai'n niweidiol i'r safbwynt polisi yn y maes hwn pe bai Llywodraeth y DU yn gwneud y ddarpariaeth hon i Gymru. Nid yw'r dull gweithredu hwn ychwaith yn atal Gweinidogion Cymru rhag gwneud rheoliadau i Gymru yn unig o dan adran 2A o'r Ddeddf yn y dyfodol."

Byddem yn croesawu eglurhad ac eglurder pellach ar eich datganiad sy'n nodi "ni fyddai'n niweidiol i'r safbwynt polisi yn y maes hwn pe bai Llywodraeth y DU yn gwneud y ddarpariaeth hon i Gymru".





Ein cyf/Our ref: MA/RE/0660/23

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
Swyddfa.breifaf@senedd.cymru

02 Mehefin 2023

Annwyl Peredur,

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Bil Ardrethu Annomestig

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 26 Mai ynghylch ystyriaeth y Pwyllgor Cyllid o'r Memorandwm ar y Bil Ardrethu Annomestig (y Bil). Nodaf fod eich sylwadau'n adlewyrchu'r cwestiynau a ofynnwyd gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn ei lythyr dyddiedig 18 Mai. Ers hynny, rwyf wedi ysgrifennu i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i ateb y cwestiynau hynny. Cafodd y Pwyllgor Cyllid (ymhlith eraill) gopi o'm hymateb.

Byddaf yn anfon copi o'r llythyr hwn at y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, ac at y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, a'r a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Yn gywir,

Rebecca Evans AS/MS
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Eitem 8

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Memorandum of Understanding

Between

The Welsh Ministers

And

The Secretary of State for the Home Department

1 June 2023

Memorandum of Understanding

The participants in this Memorandum of Understanding (“MoU”) are:

(1) The Welsh Ministers; and

(2) The Secretary of State for the Home Department.

(together “the Participants”)

1. Background

The Protection from Sex-based Harassment in Public Bill (“the Bill”) was introduced in the UK Parliament, on 15 June 2022.

The Bill makes provision in the following areas:

